

CYNGOR SIR  
CAERFYRDDIN

## Amcanion Llesiant 2017/18

(Yn cynnwys Prif Flaenoriaethau Amcanion Gwella)

---

'Mae'n rhaid byw bywyd,  
gadewch i ni ddechrau'n dda,  
byw'n dda a heneiddio'n dda,  
mewn amgylchedd iach, diogel  
a llewyrchus'

---


	Tud.
1 Cyflwyniad	2
2 Gwerthoedd Craidd	2
3 Ein Strategaeth Gorfforaethol	2
4 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	3
5 Sut cafodd ein Hamcanion Llesiant eu clustnodi	4
6 Ariannu ein Hamcanion Llesiant	5
7 <b>Amcanion Llesiant Sir Gaerfyrddin</b>	6
<b>Dechrau'n Dda</b>	
1. Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd	7
2. Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw	8
3. Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwr	9
4. Lleihau nifer yr oedolion ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant	10
<b>Byw'n Dda</b>	
5. Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi	11
6. Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir	12
7. Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael	13
8. Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)	14
9. Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel	15
<b>Heneiddio'n Dda</b>	
10. Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio	16
11. Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin	17
<b>Mewn Amgylchedd Iach a Diogel</b>	
12. Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol	18
13. Gwella seilwaith a chysylltedd y priffyrdd a thrafnidiaeth	19
14. Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a Diwylliant	20
8 Datganiad Llesiant	21
9 Gwella Gwasanaethau a Materion Corfforaethol eraill	22
10 Atodiadau	23-30

## 1. Cyflwyniad

Mewn cyfnod o gyfyngiadau cyllidebol difrifol a disgwyliadau a galw cynyddol, mae'n bwysig iawn bod y Cyngor yn glir ynghylch yr hyn mae am ei gyflawni nawr ac yn y dyfodol. Mae'n bwysig bod gan y Cyngor weledigaeth a chyfres o werthoedd sy'n rheoli ei benderfyniadau. Ein nod yw sicrhau taw ni yw'r Cyngor mwyaf agored yng Nghymru, ac mae pennu'r hyn rydym am ei gyflawni a sut y byddwn yn mynd ati i'w gyflawni yn allweddol i'r nod hwnnw.

## 2 Gwerthoedd Craidd

Wrth greu gwell Sir Gaerfyrddin mae'n bwysig bod ein camau gweithredu wedi'u seilio ar werthoedd craidd ac egwyddorion sy'n tywys ein symbyliad a'n menter. Ein gwerthoedd craidd yw:



**Rhoi'r Flaenoriaeth i Gwsmeriaid** - rydym yn sicrhau bod anghenion ein cwsmeriaid yn ganolog i bopeth a wnawn

**Gwranddo** – rydym yn gwranddo er mwyn dysgu, deall a gwella nawr ac yn y dyfodol

**Rhagoriaeth** – rhagoriaeth yw ein nod parhaus, gan sicrhau'r safon uchaf posibl bob amser trwy fod yn greadigol, mabwysiadu ffyrdd arloesol o weithio, a chymryd risgiau ar ôl eu pwysu a'u mesur

**Uniondeb** – rydym yn gweithredu ag uniondeb ac yn gwneud y pethau iawn bob amser

**Cymryd Cyfrifoldeb** – rydym i gyd yn cymryd perchenogaeth ac atebolrwydd personol dros yr hyn a wnawn

## 3 Strategaeth Gorfforaethol

Cafodd Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2015-20 ei chyhoeddi ym mis Medi 2015 ac mae'n pennu'r hyn fydd y Cyngor yn canolbwyntio arno hyd at 2020. Ein bwriad yw diwygio'r strategaeth ar ôl Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2017, er mwyn ystyried blaenoriaethau'r weinyddiaeth newydd, blaenoriaethau newydd Llywodraeth Cymru, a chynnwys gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## 4 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Er ein bod yn bwriadu diwygio ein Strategaeth Gorfforaethol ar ôl yr etholiadau ym mis Mai, mae rheidrydd cyfreithiol arnom i gyhoeddi:-

- Ein Prif Flaenoriaethau Amcanion Gwella (KIOPs) ar 1 Ebrill 2017 neu'n agos i'r dyddiad hwnnw
- Ein Hamcanion Llesiant erbyn mis Mawrth 2017
- Datganiad Llesiant erbyn mis Mawrth 2017

Mae'r rhain yn rhwymedigaethau cyfreithiol sydd ar wahân ond y mae rhywfaint o gysylltiad rhyngddynt hefyd, ac mae'n gwneud synnwyr sicrhau bod y gofynion hyn yn cael eu halinio'n llwyr, eu cyfuno a'u cyhoeddi yn un ddogfen.


### Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

- Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor bennu Prif Flaenoriaethau Amcanion Gwella bob blwyddyn.
- Nid oes yn rhaid i'n Prif Flaenoriaethau Amcanion Gwella newid bob blwyddyn, nac ychwaith gael eu cyflawni o fewn blwyddyn. Roedd ein KIOPs presennol yn addas i'w troi'n Amcanion Llesiant ac maent yn cael eu cryfhau i sicrhau eu bod yn cyfrannu cymaint â phosibl at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Deddf newydd yw hon a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru a fydd yn newid agweddau ar sut ydym yn gweithio. Pwrpas cyffredinol y Ddeddf yw sicrhau bod trefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus ar gyfer gwella llesiant Cymru, yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Ddeddf wedi'i llunio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru, yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf newydd yn nodi:-

- a) Bod yn rhaidd i ni ddatblygu'n gynaliadwy, gan wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Yr egwyddor datblygu cynaliadwy yw **'... bod yn rhaid i'r corff cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.'**
- b) Mae'n rhaidd i ni arddangos 5 ffordd o weithio: Tymor hir, integredig, cynhwysol, cydweithredol ac ataliol (gweler **Atodiad 1**)
- c) Mae'n rhaidd i ni weithio tuag at gyflawni'r 7 nod llesiant cenedlaethol sydd yn y Ddeddf. Gyda'i gilydd, maent yn creu gweledigaeth a rennir y gall cyrff cyhoeddus weithio tuag ati.




Gweler **Atodiad 2** i gael diffiniad o'r Nodau Cenedlaethol hyn

Gweler **Atodiad 3** i weld sut mae ein Hamcanion Llesiant yn cyfrannu at y Nodau Cenedlaethol

## 5 Sut cafodd ein Hamcanion Llesiant eu clustnodi

Y camau rydym wedi eu cymryd er mwyn clustnodi ein Hamcanion Llesiant ar gyfer 2017/18 - gan gynnwys ein Prif Flaenoriaethau Amcanion Gwella yw:



### Ariannu Amcanion Llesiant y Cyngor

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i ni (ymysg pethau eraill), gyhoeddi datganiad sy'n manylu ar sut y byddwn, fel corff cyhoeddus, yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu neilltuo'n flynyddol i gyflawni ein Hamcanion Llesiant. Mae ein trefniadau ar gyfer rheoli adnoddau i gyflawni ein hamcanion wedi gweithio'n dda i ni yn y gorffennol ac maent wedi cael eu canmol yn annibynnol gan reoleiddwyr:-



*'Mae gan y Cyngor hanes llwyddiannus o ddarparu cyllidebau blynyddol yn unol â'r camau cynlluniedig roedd wedi eu cymeradwyo. Mae trefniadau rheoli a rheolaeth ariannol y Cyngor yn addas i'r diben ac yn cael eu rheoli'n effeithiol.'*

*Swyddfa Archwilio Cymru - Asesiad Corfforaethol Ionawr 2016 Para. 37*

Rydym wedi bod yn gweithio i wella sut gallwn wneud cysylltiadau amlycach rhwng ein cynllunio ariannol, strategol a busnes. Roedd gwella'r cysylltiadau hyn yn *Gynnig ar gyfer Gwella yn Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru*.

Fodd bynnag, mae awdurdodau lleol wedi wynebu'r un sefyllfa ariannol dros y blynyddoedd diwethaf, sef toriadau sylweddol i'r adnoddau sydd ar gael i wasanaethau cyhoeddus. Golyga hyn fod gennym lai o arian i'w fuddsoddi mewn gwasanaethau nawr nag yn y gorffennol. Dros y pum mlynedd diwethaf rydym wedi gorfod rheoli gostyngiadau o £53 miliwn yn y cyllidebau sydd ar gael i wasanaethau, ac ar yr un pryd mae'r gwasgfeydd ar y gyllideb wedi bod yn cynyddu o ran galw a disgwyliaid. Hyd yn hyn, rydym wedi gallu rheoli'r sefyllfa hon drwy leihau ein gwariant heb fod unrhyw effaith sylweddol ar y gwasanaethau rheng flaen sy'n bwysig i'n cymunedau.

Mae gwasgfeydd ariannol pellach yn debygol o ddeillio o bethau megis costau ynni cynyddol; cynnydd yn nifer y bobl hŷn y mae angen ein gwasanaethau arnynt; swyddfeydd, ac adeiladau ysgol a phrifyrdd y mae angen buddsoddi'n helaeth ynddynt, gan gofio bod hyn yn ychwanegol at yr ansicrwydd presennol o ran rhagolygon economaidd wrth i'r DU gychwyn y broses o adael yr Undeb Ewropeaidd.

Ein bwriad yw buddsoddi oddeutu £210 miliwn o gyllid cyfalaf yn ychwanegol yn ein blaenoriaethau corfforaethol dros y pum mlynedd nesaf.

**Gweler Atodiad 4 i gael manylion am y gwariant fesul Amcan Llesiant.**





1 Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd



2 Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw



3 Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwyr



4 Lleihau nifer yr oedolion ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant



5 Trechu tldi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tldi



6 Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir



7 Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael



8 Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)



9 Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel



10 Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio



11 Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin



12 Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol



13 Gwella seilwaith a chysylltedd y priffyrdd a thrafnidiaeth



14 Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a Diwylliant

DECHRAU'N DDA

BYW'N DDA

HENEIDDIO'N

AMGYLCHEDD IACH A  
DIOGEL



= Ein Prif Flaenoriaethau Amcanion Gwella (KIOPs) presennol




## Amcan Llesiant 1

Dechrau'n Dda - Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd

### Pam y mae hyn mor bwysig?

- Gan fod rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i bob plentyn yn hanfodol er mwyn lleihau anghydraddoldebau yn ystod cwrs bywyd.
- Gan fod yr hyn sy'n digwydd yn ystod y blynyddoedd cynnar hyn yn cael effaith gydol oes ar sawl agwedd ar iechyd a llesant - o ordewdra, clefyd y galon ac iechyd meddwl i gyflawniad addysgol a statws economaidd.
- Gan fod Plant sy'n Derbyn Gofal yn fwy tebygol o fod wedi bod yn agored i risgiau niferus sy'n gysylltiedig â chanlyniadau gwael yn y tymor hir cyn dechrau derbyn gofal (Jones, 2011).



### Pam y dylem boeni am hyn?

- Gan fod 47 o bob 100 o oedolion yng Nghymru wedi cael o leiaf un Profiad Niweidiol yn ystod Plentynod a bod 14 wedi cael 4 neu fwy.
- Gan fod 15.3% o blant Sir Gaerfyrddin yn byw ar aelwydydd heb waith, sy'n uwch na ffigwr 2014 o 14.8% ac yn uwch na'r ffigurau ar gyfer Cymru (13.6%) a'r DU (12.1%).
- Gan fod, ar hyn o bryd yn Sir Gaerfyrddin, 757 o Blant mewn Angen, 46 o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, a 208 o Blant sy'n Derbyn Gofal.

### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen i ni roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a sicrhau eu datblygiad drwy gydol eu plentynod cynnar.
- Mae angen i ni feithrin cydnerthedd yn erbyn profiadau niweidiol.

### Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Byddwn yn hyrwyddo bondio ac ymlyniad er mwyn cefnogi perthnasoedd rhiant-plentyn da a chadarnhaol.
- Byddwn yn sicrhau bod rhieni a'r sawl sy'n gadael gofal yn meddu ar fwy o'r sgiliau sy'n angenrheidiol i osgoi Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod yn amgylchedd y cartref, ac yn hybu datblygiad llesiant a chydnerthedd cymdeithasol ac emosiynol yn y plentyn.
- Byddwn yn clustnodi achosion posibl lle mae plant eisoes yn cael eu cam-drin, eu hesgeuluso, neu'n byw mewn amgylchedd niweidiol, ac yn ymyrryd ynddynt.
- Byddwn yn parhau i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o ymlyniad mewn ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn dod yn *ysgolion ag ymwybyddiaeth o ymlyniad*.
- Byddwn yn sicrhau bod ein tîm camddefnyddio sylweddau arbenigol yn diwallu anghenion plant drwy:
  - Darparu cyngor a chefnogaeth arbenigol i dimau rheng flaen
  - Cynyddu ymwybyddiaeth o beryglon camddefnyddio sylweddau a chefnogi pobl i wneud penderfyniadau gwybodus i atal y niwed a achosir gan gamddefnyddio sylweddau.
- Byddwn yn sicrhau bod pob plentyn ag anghenion addysgol arbennig (AAA) sydd wedi'u clustnodi ym mhob ysgol yn Sir Gaerfyrddin yn cael mynediad i gyllid AAA dirprwyedig a gwasanaethau cymorth integredig priodol – e.e. Seicoleg Addysg a Phlant, cymorth â Namau Synhwyraidd ac Athrawon Ymgynghorol.




Mwy o Wybodaeth - Gallwch weld ein [cynllun gweithredu](#) ar gyfer cyflawni'r amcan hwn yma





## Amcan Llesiant 2

### Dechrau'n Dda - Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw



#### Pam y mae hyn mor bwysig?

- Gan fod amcanestyniadau yn awgrymu y bydd cynnydd yn y dyfodol o ran tueddiadau gordewdra yn ystod plentyndod, gyda'r ffigurau'n dangos mai bechgyn rhwng 2 a 15 oed sy'n wynebu'r risg fwyaf.
- Gan fod yr [Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae](#) wedi clustnodi mai'r man mwyaf poblogaidd gan blant i chwarae yw'r tu allan, ond hefyd canfuwyd bod 32% o rieni'n poeni cymaint am ddiogelwch eu plant fel bod hynny'n effeithio ar y cyfleoedd oedd y plant yn eu cael i chwarae.
- Gan fod asesiadau gweithgarwch o ran plant ysgol gynradd yn dangos mai bod yn gorfforol egniol oedd y ffactor pwysicaf ond un ar gyfer llesiant cadarnhaol plant 6 – 11 oed; cysylltiadau â pherthnasau a ffrindiau oedd y pwysicaf.
- Gan fod byw bywydau iach yn galluogi plant i gyrraedd eu potensial a gwireddu eu dyheadau o ran addysg.
- Gan fod arferion a sefydlir yn gynnar mewn bywyd yn aros gyda phobl i'w galluogi i gyfrannu'n llawn at economi a chymdeithas Sir Gaerfyrddin.

#### Pam y dylem boeni am hyn?

- Gan mai Sir Gaerfyrddin yw'r sir drydedd waethaf yng Nghymru ar gyfer lefelau gordewdra yn ystod plentyndod, ac mae 30.7% o blant 4-5 oed dros bwysau neu'n ordew, sydd bron i 5 pwynt canran yn uwch na chyfartaledd Cymru sef 26.2%.
- Gan fod ymgysylltu ag ysgolion cynradd wedi clustnodi bod cysylltiad cryf rhwng gweithgarwch corfforol a chyfleoedd i chwarae yn yr awyr agored, a theimlo'n ddiogel yn yr amgylchedd hwnnw.
- Gan fod anhwylderau iechyd meddwl ar 10% o bobl ifanc rhwng 5 ac 16 oed a chan fod 7% o blant dan 12 oed yn hunan-niweidio'n fwriadol.

#### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen i ni weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod plant ar draws Sir Gaerfyrddin: yn bwyta'n iach, yn gorfforol egniol, ac yn cadw'n iach yn feddyliol.
- Mae angen i ni ddeall pam y mae gordewdra yn ystod plentyndod mor wael yn Sir Gaerfyrddin.
- Mae angen i ni ystyried a yw mesurau a champau presennol yn gwneud unrhyw wahaniaeth.
- Mae angen i ni fesur gweithgarwch drwy ysgolion.

#### Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Byddwn yn cynyddu gweithgareddau chwaraeon i blant, gan gynnwys gwersi nofio am ddim i ysgolion, gweithredu *cynlluniau gweithgarwch corfforol allgyrsiol 5x60* ac *Aml-sgiliau'r Ddraig* a chynllun chwarae *Activ Club*.
- Byddwn yn mynd i'r afael ag iechyd meddwl gan gynnwys profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.
- Byddwn yn hyrwyddo bwyta'n iach, gan gynnwys trwy brydau ysgol, y *cynllun Ysgolion Iach a'r cynllun Newyn Gwyliau*.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu, hyrwyddo a gweithredu *Rhaglen Dechrau'n Deg*.
- Byddwn yn hyrwyddo rhaglen ataliol *10 Cam i Bwysau Iach* iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn helpu i ddatrys problem gordewdra yn ystod plentyndod.



Mwy o Wybodaeth - Gallwch weld ein [cynllun gweithredu](#) ar gyfer cyflawni'r amcan hwn yma




## Amcan Llesiant 3

Dechrau'n Dda - Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwr

### Pam y mae hyn mor bwysig?

- Gan ein bod ni i gyd eisiau i'n plant a'n pobl ifanc gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd drwy eu helpu i ennill y sgiliau a'r wybodaeth y mae arnynt eu hangen i fyw bywydau hapus, iach a bodlon.
- Gan ein bod am wella canlyniadau i bobl o bob oedran drwy ddysgu gydol oes, i'w galluogi i ffynnu yn yr 21ain Ganrif ac ym myd gwaith.
- Gan fod ymchwil gan y *Sefydliad Addysg* yn awgrymu bod mynychu cyn-ysgol dda ac ysgol gynradd dda yn gallu cael mwy o effaith ar gynnydd academaidd plant na'u rhywedd neu eu cefndir teuluol (Taggart, 2015).



### Pam y dylem boeni am hyn?

- Ar hyn o bryd mae bwlch o 29.4% yn nifer y disgyblion 15 oed sy'n ennill 5 TGAU A\*- C yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith a mathemateg ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (41.5%) a'r rheiny nad ydynt yn gymwys (70.9%).
- Gan fod gennym ysgolion y mae angen iddynt wella mewn meysydd penodol, fel y cydnabuwyd trwy'r system Gategoreiddio Genedlaethol\* (21% o ysgolion cynradd ac 17% o ysgolion uwchradd wedi'u gosod yn y 'Categori Cymorth Ambr' ac 1% o ysgolion cynradd wedi'u gosod yn y 'Categori Cymorth Coch' yn system Gategoreiddio Ysgolion Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017).  
\*Pedair lefel o 'Gategori Cymorth' yn bodoli – Gwyrdd, Melyn, Ambr a Choch.
- Gan fod [canlyniadau PISA 2015](#) (Y Rhaglen Ryngwladol ar gyfer Asesu Myfyrwyr), sef "y *meincnod rhyngwladol cydnabyddedig o hyd ar gyfer sgiliau*" yn ôl Kirsty Williams, Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Addysg, yn dal i ddangos bod Cymru ar ôl ei hôl hi o gymharu â gweddill y DU.

### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen i ni barhau i wella canlyniadau ymhellach ar gyfer pob dysgwr, gan roi pwyslais ar y sawl sydd â hawl i Brydau Ysgol am Ddim ac ar ddysgwyr agored i niwed - gweler hefyd **Amcan Llesiant 5 Trechu Tlodi**.
- Mae angen i ni ganolbwyntio ar % y disgyblion a gyrhaeddodd trothwy Lefel 2, gan gynnwys TGAU gradd A\*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg, sef yr hyn sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd fel y mesur allweddol o gyflawniad ar ddiwedd addysg orfodol (canlyniad o 65.1% ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2015/16).

### Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Byddwn yn hyrwyddo, yn datblygu ac yn cynnal system ysgolion hunanwella gydweithredol i sicrhau arweinyddiaeth a darpariaeth o safon i bob dysgwr.
- Byddwn yn parhau i wella deilliannau addysg yn barhaus ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc ar draws yr holl gamau dysgu, gan roi pwyslais penodol ar ddysgwyr agored i niwed a'r sawl sydd â hawl i *Brydau Ysgol am Ddim*.
- Byddwn yn parhau i wella presenoldeb mewn ysgolion a llesiant dysgwyr.
- Byddwn yn parhau i wella cyflwr, addasrwydd ac effeithlonrwydd ein rhwydwaith ysgolion o ran adnoddau, drwy'r *Cynllun Moderneiddio Addysg*.
- Byddwn yn buddsoddi mewn datblygu sgiliau ein hathrawon a'n staff cymorth ymhellach.
- Byddwn yn datblygu *Cwricwlwm Lleol* atyniadol, perthnasol a diledryw yn unol â fframwaith clir o ganllawiau cenedlaethol, a fydd yn paratoi ein plant a'n pobl ifanc yn llawn ar gyfer heriau a chyfleoedd bywyd fel oedolyn.
- Byddwn yn darparu'r *Rhaglen Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang*.
- Byddwn yn gweithredu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, a thrwy hynny'n anelu at sicrhau bod pob plentyn yn hyderus ddwyieithog. Gall disgyblion gyrraedd eu potensial o ran ennill sgiliau i fod yn ddinasyddion dwyieithog yn eu cymunedau, y gweithle a'r tu hwnt/yn fyd-eang.




Mwy o Wybodaeth - Gallwch weld ein **[cynllun gweithredu](#)** ar gyfer cyflawni'r amcan hwn yma



## Amcan Llesiant 4

Dechrau'n Dda - Lleihau nifer yr oedolion nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant



### Pam y mae hyn mor bwysig?

- Gan fod lleihau'r nifer nad ydynt mewn addysg cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn lleihau effaith tldi a'r gost ehangach i gymdeithas o wasanaethau cymorth, dibyniaeth ar fudd-daliadau a throseddau.
- Gan fod mwyhau cyfleoedd bywyd plant yn hanfodol, a sicrhau bod cynifer o bobl ifanc â phosibl yn gallu camu ymlaen i'r chweched dosbarth mewn ysgolion, i Golegau Addysg Bellach, neu i gael hyfforddiant neu waith.
- Gan ei fod yn galluogi pobl ifanc i gyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau lleol.

### Pam y dylem boeni am hyn?

- Gan fod % y disgyblion Blwyddyn 11 yn Sir Gaerfyrddin oedd yn NEET wedi cynyddu ychydig o 3.4% (69 disgybl) yn 2014 i 3.5% (69 disgybl) yn 2015, tra bo % y disgyblion Blwyddyn 13 yn Sir Gaerfyrddin oedd yn NEET wedi lleihau o 6.0% (46 disgybl) yn 2014 i 2.8% (21 disgybl) yn 2015.
- Mae Sir Gaerfyrddin yn y 18fed safle o blith 22 Awdurdod Lleol Cymru ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 oedd yn NEET ac yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan o 2.8%.

### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen i ni sicrhau bod holl blant a phobl ifanc Sir Gaerfyrddin yn cael y cyfleoedd gorau posibl i astudio, hyfforddi, ac ennill cyflogaeth werth chweil yn yr economi leol.
- Byddwn yn sicrhau nad yw'r holl ddysgwyr agored i niwed gan gynnwys y rheiny ag anabledd neu anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu heithrio rhag rhaglenni.
- Mae angen i ni barhau i weithredu chwe elfen Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru:
  - Clustnodi pobl ifanc y mae perygl y byddant yn NEET;
  - Darparu broceriaeth a chymorth cydgysylltiedig i bobl ifanc;
  - Gwella ein cymorth tracio a phontio;
  - Sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion pobl ifanc;
  - Cryfhau sgiliau cyflogadwyedd ac entrepreneuriaeth;
  - Sicrhau ein bod yn atebol dros ein gweithredoedd.

### Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Gweithredu chwe cham y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid uchod.
- Byddwn yn darparu elfennau lleol prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop *Cynnydd a Cham Nesa* (cyllid wedi'i warantu hyd at 2020) sy'n helpu pobl ifanc i symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth yn ystod y cyfnod addysg ôl 2020.
- Byddwn yn gweithredu argymhellion *Adolygiad Strategol Addysg 11-19 Sir Gaerfyrddin*.
- Byddwn yn adeiladu ar bartneriaethau presennol â busnesau lleol a'r sector cyhoeddus er mwyn ffocysu galwadau am sgiliau a chyflogadwyedd y rheiny sy'n newydd i'r farchnad lafur a'r rheiny sydd ynddi'n barod yn Sir Gaerfyrddin, i sicrhau y diwellir galw'n lleol ac yn rhanbarthol.



Mwy o Wybodaeth - Gallwch weld ein **cynllun gweithredu** ar gyfer cyflawni'r amcan hwn yma




## Amcan Llesiant 5

Dechrau'n Dda/Byw'n Dda - Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi

### Pam y mae hyn mor bwysig?

- Gan fod tlodi ac amddifadedd yn cael effeithiau niweidiol difrifol ar bob agwedd ar lesiant. Mae'n cyfyngu ar y cyfleoedd a'r gobeithion ar gyfer plant a phobl ifanc, yn niweidio ansawdd bywyd teuluoedd a chymunedau, ac yn cael effaith andwyol ar iechyd a disgwyliad oes llawer gormod o bobl.
- Gan fod tlodi'n gallu bod yn rhwystr o ran cyfrannu'n llawn at gymdeithas, ac yn rhy aml o lawer mae'n brofiad sy'n pontio'r cenedlaethau ac sy'n peri bygythiad sylweddol i lesiant cadarnhaol nawr ac yn y dyfodol.
- Gan fod ymchwil yn dangos bod plant sy'n cael eu magu ar aelwydydd heb waith yn cael canlyniadau sy'n gyson waeth o ran cyrhaeddiad addysgol a gallu gwybyddol na phlant eraill y mae eu rhieni wastad yn gweithio. Roedd y plant roedd eu rhieni wedi bod yn ddi-waith am ddwy neu dair blynedd pan oeddent yn tyfu lan yn treulio mwy o amser heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant rhwng 15 a 18 oed na phlant aelwydydd o wahanol gyfansoddiad cyflogaeth (Schoon, 2012).



### Pam y dylem boeni am hyn?

- Gan fod ychydig *dros draean* o aelwydydd Sir Gaerfyrddin yn gallu cael eu diffinio fel rhai sy'n byw mewn tlodi, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru ac sy'n golygu mai ein lefelau ni yw'r rhai pedwerydd uchaf yng Nghymru.
- Gan fod nifer yr aelwydydd sy'n byw mewn **tlodi difrifol** yn Sir Gaerfyrddin, sef aelwydydd sy'n cael incwm o lai na £10,000 y flwyddyn, wedi codi 2% yn 2015 i bron 16%.
- Gan fod 58% (16,766) o blith y 29,086 o aelwydydd sy'n byw mewn tlodi ar draws Sir Gaerfyrddin, mewn ardaloedd gwledig.
- Gan fod 20% o blant Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tlodi, sydd 2% yn is na chyfartaledd Cymru. Mae 62% o'r plant hyn rhwng 0 a 10 oed, 25% rhwng 11 a 15 oed, ac 13% rhwng 16 ac 19 oed.
- Gan fod 18.5 o flynyddoedd o wahaniaeth mewn disgwyliad oes rhwng unigolion o'r ardaloedd lleiaf a mwyaf difreintiedig yn Sir Gaerfyrddin.

### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen i ni *atal tlodi* - Gall byw mewn tlodi gael effaith sylweddol ar gyfleoedd plentyn mewn bywyd ac mae cydberthynas gref rhwng cael eich geni'n dlawd a bod yn dlawd gydol eich oes. Yn yr un modd, mae modd atal llawer o'r elfennau sy'n sbarduno tlodi yn ddiweddarach mewn bywyd os caiff y risg ei chlustnodi a'i hunioni mewn pryd. Felly trwy ddarparu ymyriadau cynnar, cyfannol a dargedwyd i unigolion a grwpiau agored i niwed, gallwn helpu i leihau'r tebygolrwydd o dlodi yn ein cymunedau.
- Mae angen i ni *helpu pobl i gael gwaith* – Mae sicrhau bod pobl yn cael gwaith yn un o'r ffyrdd mwyaf sylfaenol ac effeithiol o drechu tlodi yn ei holl ffurfiau. Yn ogystal ag incwm, mae gwaith yn darparu cyfleoedd o ran datblygiad cymdeithasol, emosiynol ac ymenyddol yn ogystal ag iechyd a lles cyffredinol. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos mai'r incwm canolrifol ar gyfer Sir Gaerfyrddin yw £23,825 sef y seithfed isaf yng Nghymru gyfan.
- Mae angen i ni *wella bywydau pobl sy'n byw mewn tlodi* drwy gefnogi'r rheiny sy'n dlawd a gwella mynediad i gymorth ar gyfer cynnal safonau byw sylfaenol gan gynnwys tlodi tanwydd.

### Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Byddwn yn parhau i ddarparu ein *cynllun gweithredu Trechu Tlodi* a oruchwylir gan y Panel Ymgynghorol Trechu Tlodi.



Mwy o Wybodaeth - Gallwch weld ein **cynllun gweithredu** ar gyfer cyflawni'r amcan hwn yma




## Amcan Llesiant 6

### Byw'n Dda - Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir

#### Pam y mae hyn mor bwysig?

- Gan fod darparu swyddi diogel gyda chyflog da i bobl leol yn ganolog i bopeth yr ydym yn ceisio'i gyflawni.
- Gan fod cynyddu cyflogadwyedd yn hanfodol i drechu tldi a lleihau anghyfartaledd ac yn cael effaith sylweddol ar ein hiechyd a'n gallu i fyw mewn cymdeithas.
- Gan fod teimlo wedi'u hysgogi, defnyddio sgiliau a rhyngweithio cymdeithasol yn llawer pwysicach i lesiant cadarnhaol yn y gwaith na lefel cyflogau neu sefydlogrwydd swydd, yn achos gweithlu sy'n heneiddio (arolwg asesiad llesiant).



#### Pam y dylem boeni am hyn?

- Gan fod 57.2% o'r gweithlu, o blith 72.2% o weithlu oedran gweithio cyflogedig Sir Gaerfyrddin, mewn swyddi yn y maes proffesiynol/technegol/crefftau medrus – tipyn is na chyfartaledd Cymru o 62.7%, tra bo 42.8% mewn swyddi yn y maes gofal/hamdden/gofal cwsmeriaid/gweithredu peiriannau – tipyn uwch na chyfartaledd Cymru o 37.3%.
- Gan fod creu swyddi cynaliadwy, safonol a blaengar yn Sir Gaerfyrddin er mwyn cadw a denu pobl ifanc i'r sir yn sylfaenol bwysig i economi gynaliadwy a'i chymunedau, oherwydd yn 2014-15 roedd mwy o bobl ifanc rhwng 15 ac 19 oed wedi gadael Sir Gaerfyrddin nag oedd wedi symud i mewn i'r sir.
- Gan fod yn rhaid i ni fynd i'r afael â bwlch Gwerth Ychwanegol Gros (GYC) sy'n lledaenu rhwng GYC y DU a GYC Cymru; *GYC yw mesuriad o werth y cyflogau a'r elw o nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir yn yr ardal.*
- Gan fod tueddiadau'r dyfodol yn dangos y bydd newid yng nghyfansoddiad y gweithlu yn y blynyddoedd nesaf, gan roi cyfle i ni 'achub y blaen' trwy gynyddu cyfleoedd economaidd a ffyniant y sir trwy uwch-sgilio ein gweithlu presennol a'n gweithlu – yn y dyfodol.....'dyw hi byth rhy hwyr i ddsygu'

#### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen i ni greu economi hynod wybodus a chreadigol trwy fwyhau lleoedd hyfforddiant a chyflogaeth i bobl leol, a hynny drwy greu swyddi a darparu prentisiaethau o safon, cyfleoedd hyfforddiant a phrofiad gwaith, er mwyn sicrhau bod y gweithlu bob amser yn gymwys ac yn meddu ar y sgiliau priodol er mwyn wynebu'r dyfodol.
- Mae angen i ni ddatblygu statws Sir Gaerfyrddin yn Ninas-ranbarth Bae Abertawe (Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Chastell-nedd Port Talbot) a sicrhau ei bod yn sir hyderus, uchelgeisiol â chysylltiadau.
- Mae angen i ni ddal ati i fuddsoddi yn ein seilwaith gwledig lleol, gan gynnwys trafndiaeth er mwyn denu busnesau, twristiaeth/hamdden i'r sir er mwyn hyrwyddo gweithgarwch a thwf economaidd trwy greu gwell cysylltiadau a diwydiant twristiaeth cryf (gweler Amcan Llesiant 13 *Gwella Seilwaith a Chysylltedd y Priffyrdd a Thrafnidiaeth*).

#### Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Byddwn yn gwneud hyn drwy'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol gydweithredol (aelodau'r sectorau cyhoeddus a phreifat) - byddwn yn creu, denu a chadw gweithlu sy'n gallu gweithredu sawl prosiect allweddol a ddatblygir.
- Byddwn yn gwneud cynnydd o ran cynllun adfywio strategol Sir Gaerfyrddin '*Trawsnewidiadau*' (2015-2030).
- Byddwn yn gwneud hyn drwy '*Fargen Ddinesig Arfordir y Rhyngwrwyd*' ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Mae'n gyfwerth â chronfa fuddsoddi o oddeutu £1.3 biliwn gan ffynonellau cyhoeddus a phreifat erbyn 2035, gydag economi o £15 biliwn ar gyfer y rhanbarth, a chynnydd i 90% yng nghystadleurwydd economaidd y rhanbarth (ar hyn o bryd mae'n 74% o gyfartaledd GYC y DU). Bydd Sir Gaerfyrddin yn darparu'r prosiectau canlynol o ran y Fargen Ddinesig:
  - Clwstwr Digidol Creadigol - Yr Egin - trwy greu seilwaith newydd i ddenu mentrau bach a chanolig eu maint i gychwyn neu ehangu.
  - Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant - trwy integreiddio datblygiad busnes, addysg, mentrau llesiant, ymchwil a datblygiad, a mentrau gofal iechyd.
  - Hefyd byddwn yn darparu menter sgiliau a thalent ranbarthol ar ran Rhanbarth Bae Abertawe.



Mwy o Wybodaeth - Gallwch weld ein [cynllun gweithredu](#) ar gyfer cyflawni'r amcan hwn yma






## Amcan Llesiant 7

Byw'n Dda - Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael

### Pam y mae hyn mor bwysig?

- Gan fod cartrefi fforddiadwy o ansawdd da yn hybu **iechyd a llesiant**, gan ddiwallu anghenion unigol y preswylwyr a chreu cymunedau cynaliadwy cryf a lleoedd y mae pobl am fyw ynddynt.
- Gan fod cartrefi fforddiadwy o ansawdd da sy'n effeithlon o ran ynni yn dda i'r **Amgylchedd** - bydd yr ynni a ddefnyddir yn y cartref yn llai, gan gael effaith sylweddol ar leihau llygryddion yn yr aer.
- Gan ei fod yn dda i **Strwythur Cymdeithasol** - mae codi tai fforddiadwy yn y manau cywir yn caniatáu i gymunedau groesawu ystod eang o deuluoedd a chreu grŵp o breswylwyr bywiog, amrywiol.
- Gan ei fod yn dda i'r **Economi** - er mwyn ffynnu, mae angen i fusnesau newydd gael mynediad i'w gweithlu yn hawdd. Mae datblygiadau tai fforddiadwy yn sicrhau bod teuluoedd sy'n gweithio yn aros yn eich cymuned.



### Pam y dylem boeni am hyn?

- Gan fod pobl wedi dweud wrthym yn ystod ein hymgyngoriad ar dai fforddiadwy yn 2015 bod angen i ni:
  - Targedu cymorth lle mae ei angen fwyaf, mewn ardaloedd trefol a gwledig, trwy ddarparu tai mwy fforddiadwy i'w rhentu.
  - Bod yn fwy hyblyg – boed trwy sicrhau bod tai adfeiliedig yn cael eu defnyddio unwaith eto, prynu tai presennol neu adeiladu rhai newydd.
  - Gwneud beth bynnag sydd ei angen trwy ddatblygu ffyrdd arloesol a chreadigol o ddarparu rhagor o dai.
  - Defnyddio ein hadnoddau yn y ffordd orau posibl i sicrhau cynifer o dai newydd â phosibl.
  - Defnyddio arbenigedd, sgiliau ac adnoddau'r rhai sy'n gweithio gyda ni.

### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen i ni ychwanegu at y 160 o dai fforddiadwy a gyflawnom eleni, mwy na **840** yn fwy o dai fforddiadwy dros y pedair blynedd nesaf.
- Mae angen i ni adeiladu tai cyngor newydd ledled y sir.
- Mae angen i ni weithio gyda landlordiaid preifat i'w hannog i osod eu heiddo am bris fforddiadwy, ac mae angen i ni sicrhau bod rhagor o dai o'r sector preifat yn cael eu rheoli gan ein hasiantaeth gosod tai cymdeithasol fewnol.
- Mae angen i ni weithio mewn partneriaeth â Chymdeithasau Tai yn Sir Gaerfyrddin er mwyn sicrhau'r cyflenwad mwyaf posibl o dai fforddiadwy newydd.
- Mae angen i ni weithio gyda pherchenogion eiddo i sicrhau bod tai gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto.
- Mae angen i ni brynu cartrefi o'r sector preifat a chynyddu stoc Tai Cymdeithasol y Cyngor.
- Mae angen i ni sicrhau y codir cynifer o dai fforddiadwy â phosibl trwy gyfraniadau gan ddatblygwyr.
- Mae angen i ni fwyhau'r holl gyfleoedd cyllido i'r Cyngor ac i Gymdeithasau Tai.

### Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Byddwn yn darparu'r uchod i gyd drwy ein [Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy](#)



Mwy o Wybodaeth - Gallwch weld ein [cynllun gweithredu](#) ar gyfer cyflawni'r amcan hwn yma






## Amcan Llesiant 8

Byw'n Dda - Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)

### Pam y mae hyn mor bwysig?

- Gan fod ein ffordd o fyw yn newid, mae pobl yn byw'n hwy ac mae eu hansawdd bywyd yn well.
- Gan mai'r her yw atal salwch.
- Gan fod byw bywydau iach yn galluogi pobl i gyflawni eu potensial, gwireddu eu dyheadau addysgol, a chwarae rhan lawn yn economi a chymdeithas Sir Gaerfyrddin.
- Gan fod llawer o'r gwasanaethau ataliol a'r ymyriadau sy'n ofynnol i gynnal iechyd, annibyniaeth a llesiant y tu allan i feysydd iechyd a gofal cymdeithasol.



### Pam y dylem boeni am hyn?

- Gan fod bwlch sylweddol mewn disgwyliad oes a disgwyliad oes iach. Yn Sir Gaerfyrddin:-  
Y disgwyliad oes i ddynion yw 78.6 o flynyddoedd (2013-15) o gymharu â disgwyliad oes iach o 65 o flynyddoedd (2010-14)  
Y disgwyliad oes i fenywod yw 82.3 o flynyddoedd (2013-15) o gymharu â disgwyliad oes iach o 66 o flynyddoedd (2010-14)  
Mae'r disgwyliad oes iach i ddynion a menywod yn is na chyfartaledd Cymru sef 65.3 a 66.7 o flynyddoedd.
- Gan fod 20% o oedolion yn dal i ysmegu yn Sir Gaerfyrddin a 60% o oedolion dros bwysau neu'n ordew (Cyfartaledd Cymru yw 59%).
- Mae 28% o oedolion Sir Gaerfyrddin yn dioddef yn sgil problemau iechyd meddwl, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru sef 26%.

### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen i ni weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod pobl ar draws Sir Gaerfyrddin:
  - Yn bwyta ac yn anadlu'n iach
  - Yn gorfforol egniol, ac
  - Yn iach yn feddyliol.
- Mae angen i ni waredu anghydraddoldebau o ran cyfleoedd i bobl fynd i'r afael â'r 3 maes allweddol hyn ledled ein cymunedau.

### Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid yng ngrŵp thematig Teuluoedd a Chymunedau Iach y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n canolbwyntio ar salwch o'r *crud i'r bedd*.
  - *Bwyta ac yn anadlu'n iach*: Byddwn yn sefydlu Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ar draws y sir lle bo'n briodol, a bydd preswylwyr yr ardaloedd hynny yn elwa o ran eu hiechyd yn sgil yr aer glân. Byddwn yn gwella'r amgylchedd adeiledig trwy roi cyngor am effeithlonrwydd ynni cartrefi.
  - *Gweithgarwch Corfforol*: Byddwn yn annog pobl i ddefnyddio ein hamgylchedd naturiol trwy gerdded a beicio fel ffordd arall o deithio ac yn hybu'r defnydd o lecynnau glas. Byddwn yn cynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio ein cyfleusterau hamdden ac yn datblygu ymhellach ein Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff.
  - *Iechyd Meddwl*: Byddwn yn galluogi cyflogwyr yn y gweithle i gefnogi iechyd a llesiant eu gweithlu trwy fentrau iechyd yn y Gweithle. Rydym yn cydweithio â phartneriaid ym maes iechyd a'r trydydd sector i drawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl ac i wella mynediad i wybodaeth, cyngor, gwasanaethau ataliol, a gwasanaethau argyfwng yn Sir Gaerfyrddin.
- Byddwn yn sicrhau bod ein tîm camddefnyddio sylweddau arbenigol yn diwallu anghenion oedolion drwy:
  - Darparu cyngor a chefnogaeth arbenigol i dimau rheng flaen
  - Cynyddu ymwybyddiaeth o beryglon camddefnyddio sylweddau a chefnogi pobl i wneud penderfyniadau gwybodus i atal y niwed a achosir gan gamddefnyddio sylweddau.



Mwy o Wybodaeth - Gallwch weld ein cynllun gweithredu ar gyfer cyflawni'r amcan hwn yma




## Amcan Llesiant 9

Byw'n Dda/Heneiddio'n Dda - Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel

### Pam y mae hyn mor bwysig?

- Gan fod bod yn unedig a chysylltiedig yn un o uchelgeisiau 'Symud Cymru Ymlaen' Llywodraeth Cymru.
- Gan fod pwysigrwydd teulu o ran cael dylanwad cadarnhaol ar lesiant yn amlwg mewn canfyddiadau sy'n deillio o weithgareddau ymgysylltu sylfaenol fel rhan o asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin. Cafodd teulu a ffrindiau eu clustnodi fel y ffactor pwysicaf o bell ffordd o ran llesiant cadarnhaol gan fwy na 500 o oedolion a phlant a oedd yn cymryd rhan mewn ymarfer a ofynnai "beth mae llesiant yn ei olygu i chi" a "beth ydych am i lesiant ei olygu yn y dyfodol".
- Gan mai iaith oedd y dylanwad ail fwyaf o ran llesiant diwylliannol cadarnhaol ar ôl treftadaeth / hanes, yn ôl canlyniadau yr arolwg asesiad llesiant.
- Gan fod y ffordd y mae pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda yn eu cymdogaethau yn bwysig o ran gwella llesiant. Cymunedau cydlynol sy'n gwrthsefyll tensiynau ac sy'n gydnerth pan fyddant yn codi.



### Pam y dylem boeni am hyn?

- Gan mai perthnasoedd da a synnwyr o berthyn oedd y peth trydydd pwysicaf yn ein hasesiad llesiant o 2,500 o breswylwyr.
- Gan fod angen cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol ar fwy na 1000 o blant yn Sir Gaerfyrddin yn 2015-16, a bod angen cymorth ataliol i deuluoedd ar 8,626 o unigolion.
- Gan fod trigolion Sir Gaerfyrddin yn teimlo eu bod yn byw mewn cymunedau cydlynol ac mae 83% yn cytuno bod pobl leol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth ac mae 87% o'r farn bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda (NSW, 2015).
- Gan fod sylw wedi cael ei roi drwy gydol yr asesiad llesiant i faterion yn ymwneud â diogelwch ac mae teimlo'n ddiogel yn y cartref ac yn y gymuned leol yn effeithio ar synnwyr pawb o lesiant.

### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen i ni sicrhau bod gwasanaethau'n ymateb i anghenion teuluoedd a chymunedau.
- Mae angen i ni barhau i feithrin mwy o gydlyniant cymunedol a helpu a galluogi cymunedau i fynd i'r afael â'u diogelwch, eu llesiant ar y cyd, a llesiant y rheiny yn y gymuned, gan gynnwys creu bondiau cymdeithasol mewn grwpiau a phontydd cymdeithasol rhwng grwpiau yn ein cymunedau.
- Mae angen i ni gadw ein cymunedau'n ddiogel wrth ddarparu ein gwasanaethau

### Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Byddwn yn gweithredu *Strategaeth Cymorth i Deuluoedd* Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys darparu gwasanaethau cymorth sy'n hybu perthnasoedd teuluol ac yn atal teuluoedd rhag chwalu.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu a gweithredu sut ydym yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn y gwasanaethau gofal cymdeithasol, gan sicrhau bod gwybodaeth ar gael ac yn hawdd ei chyrru.
- Byddwn yn gweithredu *Cynllun Cyflawni Cenedlaethol newydd ar gyfer Cydlyniant Cymunedol* am 2017/18.
- Byddwn yn clustnodi'r cryfderau a'r adnoddau mewn cymunedau sy'n gallu cyfrannu at hyrwyddo a chefnogi iechyd a llesiant cymdogion.
- Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid er mwyn atal a lleihau troseddau ac aildroseddu ac amdiffyn pobl sy'n agored i niwed.



Mwy o Wybodaeth - Gallwch weld ein [cynllun gweithredu](#) ar gyfer cyflawni'r amcan hwn yma




## Amcan Llesiant 10

Heneiddio'n Dda - Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio

### Pam y mae hyn mor bwysig?

- Gan fod ymgynoriadau wedi dangos mai'r hyn sy'n bwysig i unigolion yw gallu bod mor annibynnol ac iach â phosibl am gyn hired â phosibl.



*'Cael fy mharchu fel rhywun hŷn, heb gael fy ystyried yn faich ar y system iechyd a gofal cymdeithasol leol'*

### Pam y dylem boeni am hyn?

- Gan fod y boblogaeth sy'n fregus yn cynyddu a bydd angen cymorth arnynt i fod mor annibynnol â phosibl.
- Gan ei bod yn hanfodol inni osod seiliau cadarn i ddiogelu at y dyfodol argaeledd gwasanaethau sy'n hybu ac yn cefnogi llesiant parhaus ac annibyniaeth ein poblogaeth hŷn sy'n fregus.
- Gan fod tueddiadau'r dyfodol yn dangos bod disgwyl i boblogaeth Sir Gaerfyrddin, rhwng 2014 a 2039, gynyddu tua 4,004 (2.2%). Mae hyn yn ostyngiad yn yr holl grwpiau oedran ac eithrio pobl 60 oed a hŷn (y mae disgwyl y bydd eu niferoedd yn cynyddu 16,800).

### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen i ni barhau i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol i fynd i'r afael â'r anghenion cymhleth sy'n gysylltiedig â chyd-forbidrwydd a bregusrwydd yn sgil oedran.
- Mae Cynllun Heneiddio'n Dda Cymru yn amlinellu'r angen i unigolion a chymunedau, gyda'r sectorau cyhoeddus, preifat, a gwirfoddol, ddatblygu a hyrwyddo ffyrdd arloesol ac ymarferol o wneud Cymru'n lle da i dyfu'n hŷn i bawb (gweler Amcan 11 ar *Heneiddio'n Dda*).

### Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Byddwn yn parhau i wella ein 'seilwaith' Iechyd Cymunedol a Gofal Cymdeithasol integredig er mwyn sicrhau ein bod yn gallu hyrwyddo llesiant ac annibyniaeth ein poblogaeth hŷn yn effeithiol ac yn effeithlon, gan gynnal ar yr un pryd anghenion gofal tymor hir a diogelu y rhai mwyaf bregus ac agored i niwed.
- Byddwn yn darparu ystod eang o wasanaethau ac ymyriadau ar draws y tri maes 'cynnig' a amlinellir yn nogfen Cyngor Sir Gaerfyrddin, 'Darparu Gwasanaethau Cynaliadwy i Bobl Hŷn yn Sir Gaerfyrddin'.
  - Haen Un:** Mae Gwasanaethau ac Ymyriadau sy'n hyrwyddo annibyniaeth, llesiant, ymgysylltu cymunedol a chynhwysiant cymdeithasol megis gwybodaeth, cyngor a chymorth, cyfeirio pobl at wasanaethau cymunedol.
  - Haen Dau:** Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu ymyriadau wedi eu targedu er mwyn i unigolion adennill annibyniaeth a llesiant o'r un lefel ag o'r blaen yn dilyn cyfnod acíwt neu anaf, a hefyd gall helpu i osgoi derbyniad i'r ysbyty. Mae'r gwasanaethau hyn yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau Haen 1 i sicrhau cymorth parhaus o ran iechyd a llesiant gan eu cymuned eu hunain.
  - Haen Tri:** Mae darparu gwasanaeth ar y lefel hon yn canolbwyntio ar gefnogi unigolion sydd ag anghenion gofal arbenigol a thymor hir. Bydd gwasanaethau yn yr haen hon yn cydlynu â gwasanaethau yn haen 2 er mwyn sicrhau bod pobl, adeg anafiadau neu gyfnodau acíwt o salwch, yn adennill annibyniaeth ar yr un lefel ag o'r blaen.
- Byddwn yn clustnodi sut y bydd cymunedau lleol yn gallu cyfrannu at gefnogi llesiant ac annibyniaeth (gweler Amcan 9 ar *Gefnogi Cysylltiadau Da*).
- Byddwn yn comisiynu'n effeithiol ymyriadau ac asesiad tymor byr i fwyhau annibyniaeth.
- Byddwn yn cymryd camau o fewn y *cynllun Bwrdd Gweithredu Dementia* ar draws meysydd iechyd a chymdeithasol.
- Rydym yn gwneud gwaith addasu cost isel mewn preswylfeydd preifat mor gyflym â phosibl.



Mwy o Wybodaeth - Gallwch weld ein [cynllun gweithredu](#) ar gyfer cyflawni'r amcan hwn yma




## Amcan Llesiant 11

### Heneiddio'n Dda - Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin

#### Pam y mae hyn mor bwysig?

- Gan fod gwasanaethau ehangach yn gallu gwneud cyfraniad pwysig i gefnogi a chynnal annibyniaeth



pobl hŷn a lleihau'r galw ar Wasanaethau Cymdeithasol a Gofal Iechyd;

Swyddfa Archwilio Cymru – Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon? Hydref 2015.

- Gan fod angen inni, wrth gynllunio gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn, wrando ar yr hyn mae pobl hŷn wedi ei ddweud wrthym ynghylch y gwasanaethau maent am eu cael.
- Gan fod angen i ni ofyn i'n hunain, wrth benderfynu ar beth i'w wneud, a fyddai'r gwasanaeth hwn yn iawn i mi neu fy mherthnasau? Os na fyddai, sut y gallwn ni wella?
- Gan fod gwasanaethau cyhoeddus sy'n diwallu anghenion pobl hŷn yn aml yn diwallu anghenion grwpiau eraill yn y gymdeithas hefyd.

#### Pam y dylem boeni am hyn?

- Gan fod pobl hŷn yn ased sylweddol i Gymru, ac yn werth mwy nag £1 biliwn i economi Cymru yn flynyddol. Mae'n rhaid i ni fabwysiadu ymagwedd sy'n seiliedig ar asedau sydd, yn hytrach na chanolbwyntio ar gostau darparu gwasanaethau i bobl hŷn, yn ystyried cost peidio â buddsoddi mewn pobl hŷn. Mae pobl hŷn yn gwneud gwerth oddeutu £469 miliwn o waith gwirfoddoli bob blwyddyn, yn cynnwys gofal plant - y mae gwerth hwnnw'n £750 miliwn y flwyddyn.
- Gan fod pobl 50 oed a hŷn bellach yn cyfrif am gyfran fwy o'r boblogaeth. Mae gan Gymru ganran uwch o bobl 50 a hŷn sef 38.6% o gymharu â 34.8% ar gyfer y DU. Yn wir, mae gan Sir Gaerfyrddin ganran uwch na chyfartaledd Cymru sef 42.5%.
- Gan fod pobl hŷn sy'n cael cefnogaeth drwy wasanaethau wedi'u teilwra ac sy'n byw mewn cymunedau cynhwysol, yn gallu cyfrannu mwy at yr economi a'r gymdeithas leol.
- Gan fod pobl hŷn, pan ofynnwyd iddynt, wedi dweud wrthym eu bod am gymaint o gefnogaeth â phosibl i'w helpu i wneud y pethau maent yn eu mwynhau ac i ymdopi o ddydd i ddydd.

#### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen i ni 'uno' ein his-adrannau ac adrannau amrywiol er mwyn cefnogi byw'n annibynnol a helpu pobl hŷn i fyw yn eu cymunedau. Sicrhau bod ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i effaith yr holl newidiadau i wasanaethau ar bobl hŷn.
- Mae angen i ni ymgynghori mewn ffordd ystyrlon â phobl hŷn sydd yn aml yn 'arbenigwyr trwy brofiad' ac sy'n gwybod pa wasanaethau sydd eu hangen arnynt i gadw eu hannibyniaeth ac i fod yn rhan o'u cymunedau.
- Mae angen i ni ganolbwyntio ar ymagwedd seiliedig ar ganlyniadau i grynhoi'r newidiadau a'r gwelliannau a welir ym mywyd unigolyn - mae angen i ni greu gwasanaethau gan roi pwyslais ar y canlyniadau y mae ar bobl hŷn eu heisiau.
- Mae angen i ni edrych sut y byddwn yn gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyrraedd targedau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru i'w cynnwys yng Nghynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

#### Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Byddwn yn datblygu *Pum Nod Blaenoriaeth* Cynllun Heneiddio'n Dda y Cyngor:
  - Cymunedau sy'n cynorthwyo'r oeddrannus;
  - Cymunedau sy'n cefnogi pobl â dementia;
  - Atal codymau;
  - Cyfleoedd i gael gwaith a sgiliau newydd;
  - Unigrwydd a theimlo'n ynysig.



Mwy o Wybodaeth - Gallwch weld ein **cynllun gweithredu** ar gyfer cyflawni'r amcan hwn yma



## Amcan Llesiant 12

Amgylchedd Iach a Diogel - Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol

### Pam y mae hyn mor bwysig?

- Gan fod yr *Amgylchedd Naturiol* yn elfen greiddiol o ddatblygu cynaliadwy. Mae Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ymestyn y ddyletswydd sydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal a gwella bioamrywiaeth a chynyddu cryfder ecosystemau.
- Mae gwarchod a gwella bioamrywiaeth yn hanfodol yn ein hymateb i newid yn yr hinsawdd a gwasanaethau ecosystem allweddol megis bwyd, rheoli llifogydd, llygredd, dŵr ac aer glân.
- Gan fod 60% o bobl y sir yn byw mewn ardaloedd gwledig a bod y 40% arall yn byw o fewn 400 metr i lecyn gwyrdd naturiol neu led naturiol.
- Gan fod yr arolwg Asesiad Anghenion Llesiant wedi clustnodi perthynas gref rhwng llesiant pobl a'r amgylchedd o'u hamgylch, o ddarparu cyfleoedd hamdden, i ymdeimlad cadarnhaol seicolegol, buddion iechyd a chysylltiad â threftadaeth a diwylliant.
- Gan fod yn rhaid i gyrff cyhoeddus, o dan nod 'Cymru Gydnerth' yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, bennu amcanion i gyflawni 'amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol' - rhaid ystyried hyn yng nghyd-destun yr holl nodau sy'n cael eu hintegreiddio (mae bioamrywiaeth yn cyfrannu at ein heconomi, iechyd a'n llesiant).



### Pam y dylem boeni am hyn?

- Gan fod yr amgylchedd yn cyfrannu £8.8 biliwn o nwyddau a gwasanaethau yn flynyddol i economi Cymru, 9% o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth Cymru ac 1 ym mhob 6 o swyddi Cymru, a chan fod yr amgylchedd yn bwysicach yn berthynol i economi Cymru nag y mae i wledydd eraill y DU.
- Gan fod ymatebion o'r arolwg Asesiad Llesiant wedi dangos bod amgylchedd glân yn bwysig i lesiant a bod pobl yn poeni am gadw a gwella'r amgylchedd lleol gan iddynt gyfeirio droeon at dipio gwastraff yn anghyfreithlon, sbwriela, ac ailgylchu.
- Mae'n debygol y bydd cynnydd yn lefelau'r môr yn cael effaith nid yn unig ar y 5,587 eiddo yn Sir Gaerfyrddin sydd eisoes mewn perygl o lifogydd llanwol a llifogydd yn sgil cynnydd yn lefel afonydd, ond ar eiddo ychwanegol ar hyd cymunedau arfordirol ac afonol y sir.

### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen i ni glustnodi, cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo ecosystemau cydnerth.
- Mae angen i ni wella a defnyddio ein hamgylchedd naturiol cyfoethog mewn ffordd sy'n hyrwyddo datblygiad economaidd, yn denu mewnfuddsoddiad ac yn cyfrannu at ansawdd bywyd pawb sy'n byw neu'n gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â hi.
- Mae angen i ni gynnal a gwella llecynnau naturiol ac adeiledig er mwyn annog trigolion y sir ac ymwelwyr i fyw'n iach.
- Mae angen i ni gefnogi cydnerthedd yn ein cymunedau gwledig a threfol.

### Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Byddwn yn cynghori'r Awdurdod cyfan a phartneriaid ynghylch yr angen i roi sylw i ofnyion amgylcheddol Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n gosod rheidrwydd arnom i '*geisio cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth lle bo hynny'n rhan briodol o'u swyddogaethau, ac wrth wneud hynny, dylent hefyd geisio hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.*'
- Byddwn yn cyhoeddi *blaen-gynllun* i gydymffurfio â'r Ddyletswydd hon o ran Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau.
- Byddwn yn parhau i weithredu a hyrwyddo cynnydd yn y defnydd o ynni adnewyddadwy.
- Byddwn yn amddiffyn ein hamgylchedd a'n heiddo drwy ddarparu ein *Cynllun Rheoli Llifogydd a Gwastraff*, ac yn amddiffyn a rheoli ein harfordir drwy ddarparu'r *Cynllun Rheoli'r Traethlin*.
- Byddwn yn gweithredu camau o'r strategaeth '*Tuag at Ddyfodol Diwastraff*', er mwyn bod yn genedl sy'n ailgylchu llawer erbyn 2025 ac yn genedl ddiwastraff erbyn 2050.








## Amcan Llesiant 13

Amgylchedd Iach a Diogel - Gwella seilwaith a chysylltedd y priffyrdd a thrafnidiaeth

### Pam y mae hyn mor bwysig?

- Gan fod gan drafndiaeth a phriffyrdd rô allweddol o ran cynnal ein cymunedau. Mae economi fodern, lwyddiannus yn dibynnu ar symud pobl a nwyddau'n ddiogel ac yn effeithlon; rhoi cyfleoedd i bobl gael mynediad i waith ac addysg ac i wasanaethau iechyd, hamdden, cymdeithasol ac adwerthu.
- Gan mai bod yn *unedig a chysylltiedig* yw un o bedwar amcan Llywodraeth Cymru yn ei gynllun 'Symud Cymru Ymlaen'. Gall darparu mynediad integredig a fforddiadwy i fusnesau, i drigolion y sir, ac i ymwelwyr ysgogi datblygiad economaidd, lleihad mewn amddifadedd ac allgau cymdeithasol, a chynnydd mewn llesiant.
- Gan y bydd cynnal mynediad i wasanaethau yn rhoi bod i welliannau o ran iechyd a llesiant i bob rhan o'r gymuned e.e. mae hynny'n cynnwys: cerdded, beicio, cludiant teithwyr a thrafnidiaeth y ffyrdd.
- Gan y bydd De-orllewin Cymru yn Ddinas-ranbarth hyderus, uchelgeisiol a chysylltiedig erbyn 2030.



### Pam y dylem boeni am hyn?

- Gan fod ein harolwg wedi clustnodi bod *trafnidiaeth a phriffyrdd yn bwysig* ac ymhlith y 10 blaenoriaeth uchaf ar gyfer y gymuned roedd cynnal a chadw'r ffyrdd, gwasanaethau bysiau a chynnal a chadw palmentydd.
- Gan fod ein harolwg ynghylch bodlonrwydd ar wasanaethau a phwysigrwydd gwasanaethau wedi clustnodi bod *Atgyweirio a Chynnal a Chadw'r Ffyrdd* yn un o'r rhai pwysicaf ac yn un o'r rhai roedd pobl lleiaf bodlon arnynt.
- Gan mai ein rhwydwaith priffyrdd yw'r ail fwyaf yng Nghymru ac mae'n cwmpasu 3,343 cilomedr, sy'n fwy na dwbl cyfartaledd Cymru sef 1,566 cilomedr; gan gwmpasu 16 miliwn metr sgwâr o ffyrdd cerbydau.
- Gan fod cyflwr ein ffyrdd wedi ei raddio yn y 19<sup>eg</sup> safle o blith 22 ledled Cymru yn 2014/15.
- Gan nad oes gan 18.8% o bobl y sir fynediad i gar neu fan. Fodd bynnag, mae gan 43.5% o'r aelwydydd un car fesul aelwyd, a allai ddynodi llai o hygyrchedd mewn mannau lle nad oes system trafndiaeth gyhoeddus dda.
- Gan mai dim ond 55% o'r rheiny sy'n 80+ oed sydd â mynediad i gar neu fan, felly mae trafndiaeth gyhoeddus a gwasanaethau cymunedol yn bwysig er mwyn galluogi pobl i barhau i fyw yn eu cymunedau; gall hyn olygu'r gwahaniaeth rhwng rhywun yn aros yn annibynnol gartref neu'n cael gofal preswyl.

### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen i ni ddatblygu a chefnogi mynediad i wasanaethau er mwyn gwella cysylltedd, lleihau tagfeydd, a gwella cystadleurwydd.
- Mae angen i ni gynnal buddsoddiad yn ein systemau trafndiaeth gyhoeddus a chymunedol a hwyluso teithio yn ôl ac ymlaen i ysgolion er mwyn cynnal ein Rhaglen Moderneiddio Addysg.
- Hefyd mae angen i ni fuddsoddi mewn seilwaith i gefnogi teithiau mwy cynaliadwy. Er enghraifft, trwy lwybrau beicio, llwybrau troed, a seilwaith trafndiaeth gyhoeddus.
- Mae angen i ni barhau i gynnal buddsoddiad yn ein seilwaith priffyrdd presennol er mwyn gwella cysylltedd.
- Mae angen i ni gynnal ein ffocws ar ddiogelwch ffyrdd a darparu ein blaenoriaethau o ran y strategaeth diogelwch ffyrdd.
- Mae angen i ni sicrhau bod ein fflyd cerbydau'n fodern, yn effeithlon ac yn ddiogel.

### Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Byddwn yn datblygu'r seilwaith priffyrdd i gyflawni blaenoriaethau ein Cynllun Adfywio. Byddwn yn datblygu priffyrdd newydd yng Ngorllewin Caerfyrddin, Cross Hands a Rhydaman, a byddwn yn parhau i ddatblygu cysylltiadau cerdded a beicio allweddol yn Llanelli, Dyffryn Tywi a Chaerfyrddin.
- Byddwn yn parhau â'r rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus integredig llwyddiannus megis Bwcabus a Traws Cymru.
- Byddwn yn ailddylunio ein rhwydwaith cludiant ysgol er mwyn cefnogi'r Rhaglen Moderneiddio Addysg.
- Byddwn yn parhau i gefnogi trafndiaeth gymunedol.
- Byddwn yn cyflawni ein hamcanion a bennwyd gennym yn ein Strategaeth Diogelwch Ffyrdd.
- Byddwn yn parhau i foderneiddio ein fflyd cerbydau i wella effeithlonrwydd a lleihau allyriadau.



Mwy o Wybodaeth - Gallwch weld ein **cynllun gweithredu** ar gyfer cyflawni'r amcan hwn yma






## Amcan Llesiant 14

### Amgylchedd Iach a Diogel - Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a Diwylliant

#### Pam y mae hyn yn bwysig?

- Gan fod Sir Gaerfyrddin yn gadarnle ar gyfer yr iaith Gymraeg ac ystyrir ei bod o bwysigrwydd strategol uchel yn ei dyfodol.
- Gan fod yr iaith Gymraeg a diwylliant yn rhan annatod o'n hunaniaeth ddiwylliannol.
- Gan fod yna lawer o fanteision i ddwyieithrwydd, gan gynnwys mwy o sgiliau gwybyddol.
- Gan ei bod yn bwynt gwerthu unigryw. Mae diwydiannau twristiaeth a lletygarwch ledled Ewrop bellach yn sylweddoli pwysigrwydd cynnig profiadau unigryw. Mae cael dwy iaith ac ymdeimlad o hanes a diwylliant Cymru yn gosod Sir Gaerfyrddin mewn sefyllfa gref.
- Gan fod cymryd rhan mewn gweithgarwch diwylliannol yn cael effeithiau cadarnhaol amlwg ar ddechrau'n dda, yn byw'n dda ac yn heneiddio'n dda.



#### Pam y dylem boeni am hyn?

- Gan fod 40% o bobl Sir Gâr wedi nodi eu bod yn siarad Cymraeg yn Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2016/17.
- Gan fod Cyfrifiad 2011 yn dangos bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gâr wedi gostwng i 43.9% o'i gymharu â 50.1% yn 2001.
- Gan mai uchelgais Llywodraeth Cymru trwy [Cymraeg 2050 - Strategaeth y Gymraeg](#) yw gweld nifer y bobl sy'n gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg yn cyrraedd miliwn erbyn 2050.
- Gan fod Oherwydd bod [Y Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru](#) gan Llywodraeth Cymru yn atgyfnerthu pwysigrwydd diwylliant fel blaenoriaeth.

#### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen inni sicrhau cydymffurfiaeth â [Safonau'r Iaith Gymraeg](#) o dan Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 a monitro cynnydd ar draws yr Awdurdod.
- Mae angen i ni hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ein cymunedau a gweithio gyda phartneriaid megis y Mentrau Iaith, yr Urdd a Mudiad Meithrin i wireddu'r weledigaeth a'r canlyniadau a nodir yn ein [Strategaeth Hybu'r iaith Gymraeg](#)
- Mae angen i ni hyrwyddo a chefnogi dysgwyr sy'n oedolion trwy ein darpariaeth [Dysgu Cymraeg](#). Mae angen cefnogi ac annog ein plant a'n pobl ifanc i ddod yn ddinasyddion dwyieithog hyderus, a fydd yn dewis parhau ag addysg ddwyieithog trwy gydol eu llwybr addysgol ac annog mwy o bobl i ddysgu'r iaith.
- Mae angen inni gynyddu'r nifer o bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd diwylliannol. Mae angen inni sicrhau bod casgliadau ac asedau treftadaeth ein Sir yn cael eu diogelu ac yn hygyrch i genedlaethau'r dyfodol.

#### Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Byddwn yn gweithredu ac yn monitro Safonau'r iaith Gymraeg.
- Byddwn yn datblygu ymhellach ac yn monitro cynnydd yn erbyn ein Strategaeth Hybu Iaith Gymraeg gan gyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cymru o ran 'Cymraeg 2050 - Strategaeth Iaith Gymraeg'
- Byddwn yn gweithredu'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, gan symud tuag at sicrhau bod pob disgybl yn hyderus ddwyieithog. Gall disgyblion gyflawni eu potensial wrth ennill sgiliau i weithredu fel dinasyddion dwyieithog yn eu cymunedau, y gweithle a thu hwnt / ledled y byd. (Yn Amcan 3)
- Byddwn yn annog ac yn helpu Sir Gâr i fod yn 'gymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn amddiffyn diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg'.



Mwy o Wybodaeth - Gallwch weld ein [cynllun gweithredu](#) ar gyfer cyflawni'r amcan hwn

## 8 Datganiad Llesiant Cyngor Sir Caerfyrddin

Rydym yn croesawu ein dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym eisoes wedi rhoi sylw i lawer o ofynion y Ddeddf newydd ond yn cydnabod ein bod yn gallu gwneud rhagor.

1. Rydym yn teimlo bod ein Hamcanion Llesiant yn cyfrannu'n helaeth at gyflawni ein Nodau Llesiant Cenedlaethol. Mae ein Hamcanion Llesiant yn ymwneud ag agweddau gwahanol ar gwrs bywyd ac yn rhoi sylw i lesiant mewn ffordd systematig.

Ers 2002/03 rydym wedi cysoni ein cynllunio busnes a'n cynllunio gwelliannau yn llawn â'r canlyniadau y cytunwyd arnynt gyda phartneriaid mewn Strategaeth Gymunedol Integredig. Rydym wedi defnyddio ymagwedd 'unedig' at gyflawni'r amcanion hyn, gan ddod â chyfraniadau gwahanol wasanaethau at ei gilydd mewn ffordd integredig. Bydd yr ymagwedd hon yn parhau.

2. Mae'r Amcanion Llesiant hyn wedi deillio o adborth sylweddol yn sgil ymgynghori a llu o ffynonellau gwybodaeth gwahanol ynghylch angen, data perfformiad ac adborth rheoleiddiol. Wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu i gyflawni'r amcanion hyn byddwn yn cynnwys pob math o bobl sydd â diddordeb yn eu cyflawni.
3. Bydd y camau a gymerwn i gyflawni'r Amcanion Llesiant (ein cynlluniau gweithredu) yn ceisio sicrhau y defnyddir cymaint ag sy'n bosibl ar ddulliau tymor hir, integredig, cynhwysol, cydweithredol ac ataliol.
4. Mae gan aelod o'r Bwrdd Gweithredol gyfrifoldeb penodol dros y Ddeddf yn gyffredinol. Hefyd bydd gan bob aelod o'r Bwrdd Gweithredol sy'n ddeiliad portffolio gyfrifoldeb dros Amcanion Llesiant/KIOP perthnasol.
5. I sicrhau ein bod yn cymryd y camau gweithredu hyn byddwn yn defnyddio ein dangosfwrdd System Monitro Gwybodaeth am Berfformiad (PIMS), a ddatblygwyd yn fewnol. Caiff pob cynllun gweithredu ei fonitro ac adroddir yn ei gylch yn chwarterol i'r timau rheoli adrannol, y Tîm Rheoli Corfforaethol, a'r Bwrdd Gweithredol. Hefyd adroddir ynghylch cynnydd i'r Pwyllgorau Craffu. Bydd y Cyngor yn paratodi adroddiad blynyddol am ei Amcanion Llesiant ac yn diwygio'r amcanion os bydd angen.
6. Caiff cynnwys y cynlluniau gweithredu, er mwyn cyflawni'r Amcanion Llesiant, ei ariannu'n ddigonol ac mae'n rhan annatod o gynlluniau busnes Gwasanaethau. I gyflawni'r amcanion hyn bydd gwasanaethau yn 'uno' ac yn cydweithio, yn gweithio gyda phartneriaid, ac yn cynnwys dinasyddion o bob math yn llawn.
7. Mae ein hamcanion yn rhai tymor hir ond bydd ein cynlluniau gweithredu yn cynnwys cerrig milltir a fydd yn galluogi monitro a sicrhau cynnydd.
8. I sicrhau bod modd cyflawni ein Hamcanion Llesiant ac i gyrraedd disgwyliadau'r Ddeddf, byddwn yn addasu trefniadau craffu, cynllunio ariannol, rheoli asedau, asesu risg, a rheoli perfformiad.

### Dyletswydd i Wella

Mae Llywodraeth Leol, ledled y DU, yn wynebu cyfyngiadau cyllidebol difrifol. Mae'r disgwyliadau a'r galw am wasanaethau yn cynyddu, ond mae llai o adnoddau ar gael. O dan yr amodau hyn, mae angen i ni weithio'n fwy effeithlon ac effeithiol, i gynnal gwasanaethau a'u gwella lle y gallwn, gan ddarparu 'mwy (neu hyd yn oed yr un faint) am lai'.

### Strategaeth Gorfforaethol 2015/20

Hyd nes y caiff ei diwygio ar ôl etholiadau Mai 2017, y strategaeth hon fydd y ffocws ar gyfer y Cyngor.

### Cynlluniau Busnes y Gwasanaethau a'r Adrannau ar gyfer 2017/20

Mae'r cynlluniau hyn ar waith ar gyfer yr holl Wasanaethau. Mae'r cynlluniau adrannol yn cael eu cyflwyno i Aelodau'r Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgorau Craffu ac mae'r cynlluniau gwasanaeth yn cael eu herio gan Aelodau'r Bwrdd Gweithredol.

### Trawsnewid i Wneud Cynnydd (TIC)

Mae ymagwedd hyblyg a phragmatig yn sylfaen i'r Rhaglen TIC, ac mae'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau a thechnegau yn dibynnu ar natur y prosiect. Mae llawer o'r prosiectau'n mabwysiadu technegau rheoli prosiectau traddodiadol ac yn defnyddio amrywiaeth o fethodolegau yn seiliedig ar waith dadansoddi data ac adolygu prosesau, tra bo eraill wedi mabwysiadu'r dull 'meddwl yn ôl systemau' i helpu i ail-lunio gwasanaethau er mwyn cefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau a chyflawni arbedion effeithlonrwydd.

Un o nodweddion allweddol yr ymagwedd TIC yw y bydd, yn ogystal â helpu gwasanaethau i nodi'r potensial i newid, yn darparu'r gallu a'r cymorth i sicrhau bod y newid yn digwydd, yn aml drwy ail-lunio arferion gweithio a datblygu modelau newydd o ddarparu gwasanaethau.



### Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau

Pwrpas cyffredinol y Ddeddf yw sicrhau bod trefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus ar gyfer gwella Llesiant Cymru, yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Byddwn yn addasu'r prosesau corfforaethol canlynol:-

1. Cynllunio Corfforaethol a Chynllunio Gwasanaethau
2. Cynllunio Ariannol
3. Rheoli Asedau
4. Cynllunio'r Gweithlu
5. Caffael
6. Rheoli Risg
7. Rheoli Perfformiad

*Gallwch weld ein Cynllun Gweithredu Llywodraethu a Defnyddio Adnoddau yn Well*

### Cyfamod Cymunedol

Wrth gyflawni'r Amcanion Llesiant hyn, byddwn yn cynnal egwyddorion y Cyfamod Cymunedol. Yr egwyddorion hyn yw:

- Na ddylai Cymuned y Lluoedd Arfog fod o dan anfantais o gymharu â dinasyddion eraill o ran darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus a masnachol; a
- Bod ystyriaeth arbennig yn briodol mewn rhai achosion, yn enwedig yn achos y rhai sydd wedi rhoi i'r eithaf, megis rhai sydd wedi'u hanafu neu wedi cael profedigaeth.



## Y Pum Ffordd o Weithio


Mae'r Ddeddf yn nodi bod 5 peth y mae angen i gyrrff cyhoeddus feddwl amdanynt i ddangos bod egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith ganddynt. Bydd dilyn y ffyrdd hyn o weithio yn ein helpu i gydweithio'n well, osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol, a mynd i'r afael â rhai o'r heriau rydym yn eu hwynebu yn y tymor hir.

Mae'r 5 Ffordd o Weithio wedi cael eu hystyried wrth benderfynu ar ein Hamcanion Llesiant.

5 Ffordd o Weithio	Sut ydym yn dangos y ffyrdd hyn o weithio
<p>1 <i>Edrych ar y <b>tymor hir</b> fel nad ydym yn effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain</i></p>	<p>Mae'r Amcanion Llesiant yn cael eu sefydlu i raddau helaeth â strategaeth a ffocws <u>tymor hir</u> e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gweledigaeth Sir Gaerfyrddin am wasanaethau cynaliadwy ar gyfer pobl hŷn am y degawd nesaf 2015-2025</li> <li>Mae'r Strategaeth Tai Fforddiadwy ar gyfer 2016-20</li> <li>Mae'r <i>Amcan Gwella Cyrhaeddiad Dysgwyr</i> yn un sy'n fwy ar gyfer y tymor hir</li> <li>Strategaeth Gorfforaethol</li> </ul>
<p>2 <i>Deall achosion sylfaenol y problemau er mwyn eu <b>hatal</b> rhag codi eto</i></p>	<p>Mae ein Hamcanion Llesiant wedi eu llunio i atal problemau rhag codi neu waethygu. Maent yn cynrychioli'r meysydd lle mae angen i ni weithio gyda phartneriaid i ddileu rhwystrau, canolbwyntio ar y newid rhwng gwasanaethau a deall anghenion newidiol pobl yn ystod cyfnodau gwahanol yn eu bywydau, a hynny nawr ac yn y dyfodol, ble bynnag maent yn byw.</p>
<p>3 <i>Cymryd ymagwedd <b>integredig</b> fel ein bod yn edrych ar yr holl nodau llesiant ac amcanion gwasanaethau a phartneriaid eraill</i></p>	<p>Mae ein Hamcanion Llesiant yn gysylltiedig â'i gilydd, ac mae llawer yn gysylltiedig ag agweddau gwahanol ar gwrs bywyd, gan gefnogi pobl ym mhob cyfnod o'u bywydau.</p> <p>Fel cyfres o Amcanion, byddant yn adeiladu ar gynnydd tuag at lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, trwy ein galluogi i gymryd camau mwy cynaliadwy, wrth i ni werthuso ein penderfyniadau allweddol mewn perthynas â'n hamcanion llesiant.</p>
<p>4 <b>Cydweithio</b> - <i>Gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol i ganfod atebion cynaliadwy a rennir</i></p>	<p>Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sefydlu bwrdd statudol, a elwir yn Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Cafodd y cyfarfod cyntaf ei gynnal ym mis Mai 2016.</p>
<p>5 <b>Cynnwys</b> <i>ystod o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arny'n nhw</i></p>	<p>Mae <u>cryn ymgynghori</u> wedi bod ynghylch yr Amcanion Llesiant/KIOP's</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cafwyd 478 o ymatebion i'n hymgyngoriad ynghylch gwasanaethau cynaliadwy i bobl hŷn ar gyfer y degawd nesaf. Roedd 20% ohonynt yn anabl.</li> <li>Cafwyd 780 o ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch tai fforddiadwy.</li> <li>Cafwyd 1,000 o ymatebwyr i'r ymgynghoriad ynghylch tlodi gwledig.</li> <li>Cafodd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ei lunio gan 780 o ymatebion i'r arolwg.</li> <li>Hamdden 500 o ymatebion, Twristiaeth 650 ac ati.</li> <li>Mae ein gwaith ymgynghori ynghylch y gyllideb wedi cael ei glustnodi fel arfer gorau yng Nghymru ac rydym yn ei ddefnyddio fel sail. Byddwn yn datblygu ymhellach ymagweddau ymgynghori ac ymgysylltu y Cyngor yn ystod 2017</li> <li>Cafwyd dros 2,500 o ymatebion gan drigolion Sir Gaerfyrddin i'n hymgyngoriad Asesiad Llesiant.</li> </ul>

Dim ond pan fo corff cyhoeddus yn gallu dangos ei fod wedi ystyried egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu, cymryd camau, a chyflawni ei Amcanion Llesiant y bydd yn cydymffurfio â'r Ddeddf. Gall cyrrff cyhoeddus ystyried materion eraill wrth wneud penderfyniadau, ond er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf mae'n **rhaidd** iddynt ystyried y 5 ffordd o weithio.

Saith Nod Llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol



<b>Nodau Cenedlaethol</b>	<b>Diffiniad Swyddogol</b>
<i>Cymru lewyrchus</i>	Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.
<i>Cymru gydnerth</i>	Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
<i>Cymru iachach</i>	Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
<i>Cymru sy'n fwy cyfartal</i>	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).
<i>Cymru o gymunedau cydlynus</i>	Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
<i>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</i>	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
<i>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang</i>	Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

Sut mae ein Hamcanion Llesiant yn cyfrannu at y 7 Nod Llesiant Cenedlaethol

Amcanion Llesiant / KIOPs Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2017/18			7 Nod Llesiant Cenedlaethol						
			Llewyrch	Cydnorthedd	Iachach	Mwy cyfartal	Cymunedau Cycllynus	Diwylliant bywiog a'r	Cyfrifoldeb Byd- eang
Dechrau'n Dda	1	Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd.	✓		✓	✓	✓		
	2	Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw	✓		✓	✓	✓		
	3	Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwr	✓	✓		✓		✓	✓
	4	Lleihau nifer yr oedolion ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant	✓		✓	✓	✓		
Byw'n Dda	5	Trechu tloedi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tloedi	✓		✓	✓	✓		
	6	Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir	✓		✓	✓	✓	✓	
	7	Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael	✓	✓	✓	✓	✓		
	8	Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)	✓		✓	✓	✓	✓	
Heneiddio'n Dda	9	Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel			✓	✓	✓		
	10	Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio	✓		✓	✓	✓	✓	
	11	Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn y sir	✓		✓	✓	✓	✓	
Mewn Amgylchedd Iach a Diogel	12	Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol	✓	✓	✓				
	13	Gwella seilwaith a chysylltedd y priffyrdd a thrafnidiaeth	✓	✓	✓	✓	✓		
	14	Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a Diwylliant	✓	✓		✓	✓	✓	



### 1. Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd

Mae ein rhaglen *Dechrau'n Deg* yn dibynnu ar gyllid grant gan Lywodraeth Cymru o bron £4 miliwn y flwyddyn. I ddarparu'r rhaglen, mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn recriwtio ac yn cadw Ymwelwyr Iechyd hyfforddedig.

Mae gan raglen *Teuluoedd yn Gyntaf* ar gyfer yr ardal hon gyllid refeniw o £1.3 miliwn oddi wrth Lywodraeth Cymru am 2017-18.

I gyflawni'r amcan hwn, mae angen i ni sicrhau buddsoddiad priodol yn y blynyddoedd cynnar trwy ein hadnoddau cymunedol megis Canolfannau Plant Integredig a Chanolfannau i Deuluoedd.

### 2. Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw

Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, mae'r pwyntiau allweddol uchod hefyd yn berthnasol.

Mae prydau ysgol yn Sir Gaerfyrddin yn dilyn deddfwriaeth bwyta'n iach, ac mae cyllid craidd blynyddol o £1.7 miliwn ar gyfer hyn. Mae hyn yn cynnwys cost y fenter Brechwast Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd.

Cefnogir gweithgareddau iach ar gyfer pobl ifanc gan gyllidebau rhaglennu cyfleusterau hamdden a datblygiadau chwaraeon presennol, wedi'u hategu gan Grant Cytundeb Partneriaeth yr Awdurdod Lleol o £520k (16/17) yr ydym yn ei gael gan Lywodraeth Cymru trwy Chwaraeon Cymru. Mae hyn yn helpu i dalu am weithgareddau megis Nofio Am Ddim a'r Rhaglen Pobl Ifanc Egnïol.

### 3. Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwr

Er mwyn cyflawni'r amcan allweddol hwn, mae angen cymorth cynhwysfawr ac adnoddau o'n gwasanaethau i gyd. Mae Sir Gaerfyrddin wedi ymrwymo i sicrhau rhaglen fanwl a blaengar er mwyn cefnogi gwell cyrhaeddiad i'n holl blant a phobl ifanc. Ar hyn o bryd rydym wedi buddsoddi rhyw £88.6 miliwn yn ein cyllideb graidd ar gyfer staffio ysgolion, wedi'i ategu gan £16.9 miliwn ychwanegol drwy grantiau Llywodraeth Cymru.

Hefyd, bydd y *Rhaglen Moderneiddio Addysg/Ysgolion yr 21ain Ganrif* yn costio £86 miliwn i ddarparu'r gyfran gyntaf o brosiectau blaenoriaeth (Band A), gyda £43 miliwn yn dod o Lywodraeth Cymru. I sicrhau cymorth a her cynhwysfawr parhaus i'n hysgolion, mae angen rhyw £6.4 miliwn arnom i ariannu ein Timau Gwella Ysgolion ac Anghenion Dysgu Ychwanegol a'u darpariaeth bwysig. Mae angen £3 miliwn i barhau i ddarparu profiadau dysgu a chyflawni ehangach ac adnoddau megis amgueddfeydd, orielau a gwasanaethau archifau.

### 4. Lleihau nifer yr oedolion ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)

Mae gan y Gwasanaeth Cymorth Ieuentid rôl arweiniol o ran cyflawni'r gwaith hwn yn yr ysgol ac mewn lleoliadau cymunedol. Mae'r cyllid craidd ar gyfer y gwasanaeth hwn yn £675k. Mae'r gwasanaeth yn dibynnu ar grantiau allanol blynyddol yn cynnwys Grant Gwasanaeth Cymorth Ieuentid Llywodraeth Cymru (£150k) a Theuluoedd yn Gyntaf (£660k). Bydd yn hanfodol cael cyllid pellach gan grant olynol Teuluoedd yn Gyntaf er mwyn cyrraedd y targed llesiant hwn.

Yn ogystal â'r ffynonellau cyllid hyn, rydym wedi llwyddo i gael 1.6 miliwn o Gronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer prosiect Rhanbarthol *Cynnydd* (hyd at 2019) y ceir cefnogaeth bellach o £600k ar ei gyfer drwy arian cyfatebol. Disgwylir cadarnhad cyn bo hir y cymeradwyir £900k arall o Gronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer prosiect Rhanbarthol *Cam Nesa* (hyd at 2020) sy'n cael ei gefnogi hefyd gan £400k ar ffurf arian cyfatebol. Bydd y ddau brosiect hyn yn ceisio lleihau nifer y bobl ifanc NEET yn y sir. Er bod y cyllid ychwanegol hwn yn cael ei groesawu, mae angen gwneud gwaith ar strategaethau ymadael ar gyfer y ddau brosiect yn 2017-2018, i sicrhau bod llesiant pobl ifanc Sir Gaerfyrddin yn gallu cael ei gefnogi ar ôl 2020.

### 5. Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi

Mae'n anodd amcangyfrif y goblygiadau o ran adnoddau ar gyfer darparu mentrau i fynd i'r afael â thlodi gan fod y gwaith hwn yn cael ei wneud ar draws sbectrwm eang o wasanaethau. Ein busnes craidd yw rhywfaint o'r gwaith hwn, er enghraifft cymorth digartrefedd (£0.5 miliwn), ac mae elfennau eraill a dargedir yn cael eu cyllido drwy grantiau megis *Teuluoedd yn Gyntaf* a *Dechrau'n Deg*, ynghyd â Grant Amddifadedd Disgyblion (£4.5 miliwn). Yn ogystal, o ganlyniad i natur amrywiol tlodi a'r dylanwadau lawer sy'n gallu arwain at dlodi, mae nifer o wasanaethau'r Cyngor yn cyfrannu at drechu tlodi yn anuniongyrchol. I'r gwasanaethau hyn, nid 'nod eithaf' yw trechu tlodi, ond yn hytrach sgil-ffaith y gwaith maent yn ei wneud i gefnogi unigolion a chymunedau.

## 6. Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir

Mae gwariant Sir Gaerfyrddin y pen ar Ddatblygu Economaidd yn uwch na Chyfartaledd Cymru. Adfywio'r economi a swyddi yw prif flaenoriaeth y Cyngor. Bydd ein cynllun adfywio 15 mlynedd yn creu dros 5,000 o swyddi a buddsoddir dros £220 miliwn yn y pum mlynedd nesaf yn unig yn ei sgil.

Fel rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe bydd gennym ddau brosiect mawr yn Sir Gaerfyrddin:-

- Yn y *Clwstwr Digidol Creadigol yn Yr Egin*, bydd prosiect â chyfanswm cost o £24 miliwn (£5 miliwn Bargaen Ddinesig + £16 miliwn Sector Cyhoeddus £3 miliwn Preifat) yn cael ei roi ar waith gan greu mwy na 200 o swyddi dros y 15 mlynedd nesaf.
- Yn y *Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant*, bydd prosiect â chyfanswm cost o £200 miliwn (£40 miliwn Bargaen Ddinesig, £32 miliwn Cyllid Sector Cyhoeddus a £127 miliwn Sector Preifat) yn creu mwy na 1800 o swyddi dros y 15 mlynedd nesaf.

Hefyd gweler Amcan 3 ar gyfer rhaglen adeiladu Ysgolion yr 21ain ganrif ac Amcan 7 Tai Fforddiadwy.

## 7. Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael

Mae ein Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy yn anelu at ddarparu mwy na 1000 o dai a buddsoddi £60 miliwn yn ein cymunedau. Bydd hyn yn cael ei gyllido drwy £31 miliwn gan y Cyfrif Refeniw Tai, £17 miliwn o'r Grant Tai Cymdeithasol, £11 miliwn o arian preifat, a grant o £1 filiwn gan Lywodraeth Cymru.

## 8. Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)

Bydd yr amcan hwn yn dod â llawer o'r gwaith a wneir gan y gwasanaethau ynghyd, ac mewn rhai achosion mae'n anodd pennu gwariant o dan y pennawd hwn. Fodd bynnag y gwariant cyfalaf dros y 5 mlynedd nesaf fydd:

- £16 miliwn ar ganolfan hamdden newydd yn Llanelli
- £450k ar Hawliau Tramwy, £2.1 miliwn ar ddatblygu llecynnau agored yn cynnwys ym Mharc Gwledig Pen-bre.
- £6 miliwn ar gyfer llwybr beicio Dyffryn Tywi a £6.5 miliwn ar gysylltiadau cerdded a beicio
- Hefyd £1.25 miliwn ar lwybrau diogel mewn cymunedau

O ran gwariant refeniw ar gyfer 2017/18, byddwn yn buddsoddi:-

- £1.6 miliwn mewn sicrhau bod plant yn cael 60 munud o ymarfer corff 5 gwaith yr wythnos a'r cynllun atgyfeirio cleifion
- £5.4 miliwn mewn cynnal cyfleusterau hamdden, chwaraeon a nofio
- £5 miliwn mewn llecynnau awyr agored, cefn gwlad a'r parc arfordirol
- I sicrhau llesiant diwylliannol ledled y cyfleusterau, byddwn yn gwario £6.5 miliwn ar ddarparu gwasanaethau
- Ar gyfer Gwasanaethau Anableddau Dysgu £30 miliwn a gwasanaethau Iechyd Meddwl £9.1 miliwn a Gwasanaethau Cymorth gan gynnwys Diogelu a Thrafnidiaeth £5.6 miliwn
- I gefnogi'r rhai sy'n anabl yn gorfforol byddwn yn gwario £6 miliwn a £2.7 miliwn ar gyflogaeth â chymorth
- I sicrhau bod Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd ar gael (Diogelwch Bwyd, Ansawdd Aer a Dŵr ac ati) £2.5 miliwn

## 9. Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau

Pan fyddwn yn gofyn i bobl *pa bethau sydd yn bwysig i chi mewn bywyd?* maent yn dweud wrthym fod eu hanwyliaid, perthnasau, ffrindiau, cymdogion a'u cymuned yn bwysig iddynt. Yn y Gwasanaethau Plant mae ein hystod o wasanaethau cymorth i deuluoedd yn cyfrannu at yr amcan hwn ac mae'n anodd dadansoddi ei gostau ar wahân i gostau rhai o'n hamcanion eraill ynghylch rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant a gwella eu profiadau ar ddechrau bywyd. Fodd bynnag, gwerir £24.3 miliwn ar draws Is-adran y Gwasanaethau Plant.

Mae gwasanaethau i helpu gofalmwyr a gwasanaethau cymorth cartref yn helpu pobl i barhau i fyw gartref, gyda'u teuluoedd ac yn eu cymunedau – Hefyd gweler Amcan 10

Yn ogystal rydym yn gweithio i sicrhau cydlynu ehangach â'r gymuned trwy ystod o fentrau - Cysylltiad ag Amcan 13

## 10. Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio



O ran gwariant cyfalaf byddwn yn gwario £10 miliwn ar grantiau cyfleusterau i bobl anabl dros y 5 mlynedd nesaf, a £7 miliwn ar yr Adolygiad o Ardal Llanelli yn 2017/18.

Byddwn yn gwario bron £53 miliwn o'n cyllideb refeniw yn 2017/18 ar Wasanaethau i Bobl Hŷn. Bydd hyn yn cynnwys:

- £3+ miliwn ar Gomisiynu, £8.1 miliwn ar Gartrefi Preswyl yr Awdurdod Lleol ac £17 miliwn ar Gartrefi Preswyl y Sector Preifat a £2 filiwn ar ofal ychwanegol
- Ar Wasanaethau Gofal Cartref £5.3 miliwn ar ddarpariaeth yr ALL a £9.3 miliwn ar ddarpariaeth Breifat.
- Pryd ar Glud £291k, Taliadau Uniongyrchol £600K a grantiau i sefydliadau gwirfoddol £543k
- £1.2 miliwn ar wasanaeth llinell gofal, £2.2 miliwn ar ailalluogi ac £1.2 miliwn ar Wasanaethau Dydd a Chymorth Cymunedol

Gweler Amcan 11 hefyd

## 11. Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin



Mae'n anodd amcangyfrif lefel y buddsoddiad yn yr amcan hwn gan ei fod yn berthnasol i amrywiol wasanaethau. Y peth pwysig o ran yr amcan hwn yw sicrhau ein bod, ym mhopeth yr ydym yn ei wneud, yn meddwl am gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin. Mae clywed am gost darparu gwasanaethau i bobl hŷn yn gyffredin, fodd bynnag byddai ymagwedd wedi ei seilio ar asedau yn ein hatgoffa o gostau peidio â buddsoddi mewn pobl hŷn a'r gwerth net maent yn ei ychwanegu at y gymuned.

Yn syml, mae pobl hŷn yn gyfranwyr net i'r economi yn hytrach na buddiolwyr, drwy eu cyfraniadau at y sectorau marchnad cyflogaeth, gwirfoddoli, mentora, a gofalu. Mae'r gwaith y mae gwasanaethau'r Cyngor yn ei wneud i helpu pobl i fwy'n annibynnol yn lleihau'r angen am ymyriadau iechyd a gofal cymdeithasol drudfawr - Gweler Amcan 10 hefyd

## 12. Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol



Gellir mynd i'r afael â'r flaenoriaeth hon heb fod angen buddsoddiad mawr ychwanegol. Byddwn yn canolbwyntio'n bennaf ar gyflawni'r amcan hwn drwy'r gwaith rydym yn ei wneud gyda'r Tîm Cadwraeth Cefn Gwlad ar hyn o bryd, gan gynghori ac addysgu cydweithwyr ynghylch sut y gellir gwella rhagor ar ein gwasanaethau presennol, er mwyn helpu i gynnal a gwella'r amgylchedd naturiol.

O ran cymryd camau mewn perthynas â'r *Strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff, y Cynllun Rheoli Llifogydd a Gwastraff a Chynllun Rheoli'r Traethlin*, mae'r camau hyn wedi eu cynnwys yn barod yn y cyllidebau perthnasol. Mae cyllideb refeniw is-adran y Gwasanaethau Gwastraff ac Amgylcheddol o £23.2 miliwn (17/18) yn anelu at gyllido casglu a gwaredu gwastraff sy'n cynnwys mentrau ailgylchu niferus, glanhau strydoedd, gorfodi rheolau amgylcheddol, cynnal a chadw tiroedd a pharciau, gwarchod yr arfordir a gwarchod rhag llifogydd, yn ogystal â chynnal cyfleusterau cyhoeddus gan sicrhau ein bod yn gofalu am yr amgylchedd nawr ac yn y dyfodol.

Hefyd bydd *Grant Refeniw Sengl Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy* Llywodraeth Cymru o £3.7 miliwn yn cefnogi cyflawni canlyniadau mewn modd integredig a manteision lu ar draws y tair ardal flaenoriaeth - sef rheoli adnoddau naturiol, effeithlonrwydd adnoddau a gwastraff ac ansawdd yr amgylchedd lleol. Bydd ystyried goblygiadau o ran adnoddau ar gyfer camau a gymerir yn y dyfodol yn rhan o'r drafodaeth yn ystod 2017/18, mewn perthynas â llunio'r blaengynllun ar gyfer gwasanaethau.



### 13. Gwella seilwaith a chysylltedd y priffyrdd a thrafnidiaeth

Mae *Cynllun Trafnidiaeth Lleol* Sir Gaerfyrddin yn pennu ein blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith. Mae'r blaenoriaethau'n cyd-fynd â'n hamcanion corfforaethol ac wedi'u pennu yn amcanion Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Mae ein rhaglen gyfalaf gymeradwy bresennol yn cynnwys £39.9 miliwn i'w fuddsoddi yn y seilwaith priffyrdd, gyda thua £25 miliwn yn dibynnu ar gyllid grant allanol os bydd ar gael, ynghyd â chyfraniadau gan ddatblygwyr wrth i ddatblygiadau newydd gychwyn.

Mae cyllideb refeniw yr is-adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth o £46.2 miliwn yn cynnwys swm o £8.3 miliwn ar gyfer seilwaith priffyrdd yn ogystal â chyllid ar gyfer cludiant ysgol a thrafnidiaeth gyhoeddus, cynnal a chadw a gweinyddu meysydd parcio, cynnal a chadw goleuadau cyhoeddus ar gyfer y sir, a datblygu strategaethau trafndiaeth i gynnal cysylltedd seilwaith priffyrdd Sir Gaerfyrddin.

Bydd cyflwyno'r prosiectau trawsnewid megis y rheiny sydd wedi'u cynnwys yn y Fargen Ddinesig a'r prosiectau trafndiaeth integredig, gyda chymorth cyllid allanol, yn rhoi cyfle i fuddsoddi yn y seilwaith a'r gwasanaethau trafndiaeth er mwyn helpu i gludo nwyddau a phobl yn ddiogel.

### 14. Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a Diwylliant

Gellir mynd i'r afael â'r flaenoriaeth hon heb yr angen am fuddsoddiad ychwanegol mawr. Byddwn yn canolbwyntio'n bennaf ar gyflawni'r amcan hwn trwy'r gwaith a wneir gennym o fewn Adfywio a Pholisi, Hamdden a Diwylliant ac Addysg a Gwasanaethau Plant, gan gynghori ac addysgu cydweithwyr ynghylch sut y gellir gwella ein gwasanaethau presennol ymhellach a sut y gallwn ni hyrwyddo Diwylliant bywiog a sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn ffynnu.

Efallai y bydd cefnogaeth ychwanegol ar gael trwy 'Cymraeg 2050 - Strategaeth Iaith Gymraeg' Llywodraeth Cymru a byddwn yn monitro'n fanwl unrhyw gyfleoedd i Sir Gâr gael mynediad i'r gefnogaeth hon.

**Cynllun dros dro yw hwn ar hyn o bryd  
yn amodol ar adborth o'n proses wleidyddol ddemocrataidd.**



**Byddem yn croesawu adborth gennych - anfonwch eich sylwadau a'ch safbwyntiau atom i:**



**Rheoli Perfformiad**

Adfywio a Pholisi  
Adran y Prif Weithredwr  
Neuadd y Sir  
Caerfyrddin  
Sir Gaerfyrddin, SA31 1JP



Rhif ffôn: **01267 224486**  
E-bost: **[perfformiad@sirgar.gov.uk](mailto:perfformiad@sirgar.gov.uk)**



Dilynwch ni ac ychwanegwch eich sylwadau ar dudalen **[Facebook y Cyngor](#)**



Dilynwch y cynllun hwn ac ychwanegwch eich negeseuon Trydar ar ein tudalen **[Twitter](#)** - **[#AdroddiadSirGar](#)**